
Technolegau cyfathrebu TM355

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae TM355 Technoleg Cyfathrebu yn archwilio'r technolegau sy'n sail i gyfathrebu gwybodaeth, boed hynny ar ffurf testun, sain, lleferydd, llun neu fideo. Mae'r modiwl yn ystyried egwyddorion technolegol ar gyfer cyfleu gwybodaeth, y cyfryngau a rhwydweithiau a ddefnyddir, a'r problemau y daethpwyd ar eu traws a ffyrdd o'u lliniaru.

Bydd myfyrwyr yn dysgu am rinweddau perthnasol ffibr, cebl copr a thonnau radio, ac am y technegau a ddefnyddir wrth ddarparu band eang llinell sefydlog a band eang symudol (3G a 4G). Drwy gydol y modiwl mae pwyslais ar egwyddorion sylfaenol, megis damcaniaeth arwyddion a thrawsgyweiriadau, codio ffynonellau (ar gyfer cynrychiolaeth effeithlon o wybodaeth) a chodio sianeli (ar gyfer trawsyriant cadarn drwy sianeli swllyd).

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd berthnasol neu brofiad diwydiannol cyfatebol ym maes technolegau cyfathrebu
- gwybodaeth am egwyddorion cyfathrebu a pharodrwydd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau newydd yn ystod bodolaeth y modiwl
- y gallu i ymgysylltu â gwaith myfyrwyr a rhoi adborth a chyingor priodol ac unigol
- cymhwysedd rhifyddol a'r gallu a'r parodrwydd i addysgu egwyddorion mathemategol y modiwl
- ymrwymiad i weithio o fewn amgylchedd addysgu ar-lein Y Brifysgol Agored gan ddefnyddio technolegau'r Brifysgol Agored sy'n rhan annatod o'r modiwl hwn

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu telathrebu ar lefel israddedig neu brofiad cyfatebol
- profiad o ddefnyddio ffurfiau electronig ar addysgu a chymorth o bell

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5